PWYLLGOR PENODI

DYDD IAU, 29 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Carter, Derbyshire, Jones-Pritchard, Patel a/ac Weaver |

25 : YMDDIHEURIADAU (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

26 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

27 : CYLCH GORCHWYL

Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod o ran penodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Prif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor.

28 : COFNODION

Cafodd cofnodion y Pwyllgor Penodi ar 13 Mawrth 2018 eu cymeradwyo a'u llofnodi fel cofnod cywir.

29 : PENODI PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cynullwyd y pwyllgor i gyfweld â'r pedwar ymgeisydd ar y rhestr fer a gyflwynwyd gan y pwyllgor ar 13 Mawrth 2018 ar ôl ystyried y canlyniadau o'r Ganolfan Asesu.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor fod ymgeisydd 6 wedi tynnu nôl o'r broses.

Fel rhan o'r broses gyfweld, rhoddodd pob ymgeisydd gyflwyniad 10 munud a rhoddwyd cyfle i aelodau archwilio cynnwys y cyflwyniad a gofyn cwestiynau amdano.  Dilynwyd hyn gan gwestiynau gosod ffurfiol a dau gwestiwn gorfodol.

Ar ddiwedd y broses gyfweld, trafododd y pwyllgor berfformiad pob ymgeisydd yn erbyn y cymwyseddau a'r ymatebion enghreifftiol.

Cytunodd y pwyllgor y gallai benodi ymgeisydd i swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

PENDERFYNWYD:

1. Penodi Gary Jones yn Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a rhoi'r cyflog blynyddol unigryw sy'n gysylltiedig â'r swydd;

2. Cynhaliwyd y broses ddethol yn unol â’r broses benodi a chafodd pob ymgeisydd ei drin yn gyfartal ac yn deg. Penodwyd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ôl ei haeddiant.

30 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem fusnes ganlynol oherwydd petaent yn bresennol ac oherwydd natur y busnes, datgelid gwybodaeth iddynt a eithrir fel y’i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y diffinnir isod:

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy’n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i’r Awdurdod; a

Pharagraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.